

Trosolwg

Mae'r Safon hon yn ymwneud â golygu, cynnal a diweddarau gwefannau sy'n bodoli eisoes a rhai gwreiddiol. Gall hyn gynnwys golygu ac addasu testun, sain, fideo, delweddau llonydd a graffeg.

Ffocws y Safon hon yw'r we, ond mae hefyd yn cwmpasu platfformau newydd. Mae'n ymwneud â chyfuno amrywiaeth o gynnwys digidol i ddarparu gwasanaeth rhyngweithiol i gynulleidfaedd targed ar amrywiaeth o wahanol blatfformau, gan gynnwys gwasanaethau newyddion 24 awr.

Mae'n ymwneud â defnyddio'r rhyngrwyd yn effeithiol ar gyfer:

- 1 ymchwil
- 2 creu straeon sy'n addas i'w cyhoeddi ar y we
- 3 creu dolenni mewnol ac allanol ynghyd â dull clir o lywio o un tudalen i'r llall

Mae'n cynnwys canfod a chywiro camgymeriadau, ac ymrannu ac ail-greu deunydd cymhleth i'w gyflwyno i gynulleidfa'r rhyngrwyd mewn ffurf ddeniadol, hawdd ei gymhathu ac eglur.

Mae'n ymwneud â phennu adnoddau a gweithio yn ôl y briff o fewn y gyllideb a'r cyfnodau o amser a gytunwyd

SKSJ32W

Golygu deunydd ar gyfer ei ddarparu ar-lein

Meini prawf perfformiad

Rhaid i chi allu:

- P1 pennu'n glir y mathau o blatfformau sydd ar gael, a'u pwysigrwydd cymharol i'r briff a gytunwyd, i'r cynulleidfaoedd targed, a'u disgwyliadau
- P2 pennu a chytuno ar ba adnoddau sydd eu hangen, gan sicrhau eu bod yn ddigonol i gynnal y cynnwys drwy gydol y briff a gytunwyd
- P3 gweithio o fewn y gyllideb a'r cyfnodau o amser a gytunwyd
- P4 defnyddio'r ystod lawn o declynnau'r rhynggrwyd i ymgymryd â'r ymchwil angenrheidiol
- P5 ar ôl casglu gwybodaeth, adolygu'r briff, gan gydnabod a datrys unrhyw broblemau a all effeithio ar bwrpas, cynnwys, ymdriniaeth neu ddyluniad arfaethedig eich deunydd
- P6 cadarnhau sut y bwriedir ymdrin ag unrhyw faterion dadleuol
- P7 creu stori sy'n addas ar gyfer cyhoeddiad aml-blattform, gan ymrannu deunydd cymhleth a'i gyflwyno mewn dull sy'n syml ac yn hawdd ei ddeall
- P8 sicrhau bod cyflwyniad y cynnwys golygyddol yn addas ar gyfer y cynulleidfaoedd targed
- P9 trefnu amrywiaeth o ddeunyddiau ychwanegol mewn fformatiau priodol, a chyfuno'r deunydd yn eich stori, tudalen neu blatfform
- P10 sefydlu dolenni mewnol ac allanol, naill ai mewn i wahanol adrannau o'r stori, neu mewn i safleoedd perthnasol eraill
- P11 pennu a chydabod camgymeriadau, gan gadw cynnwys hanfodol y deunydd gwreiddiol
- P12 monitro gwaith eraill er mwyn sicrhau bod unrhyw gynnwys a gynhyrchir ganddynt yn cwrdd â gofynion y briff a'r cynhyrchiad
- P13 sicrhau y caiff y defnydd o unrhyw ddeunydd cerddorol, hawlfraint neu gytundebol ei gofnodi'n gywir

SKSJ32W

Golygu deunydd ar gyfer ei ddarparu ar-lein

Gwybodaeth a dealltwriaeth

Mae angen i chi wybod a deall:

- K1 gofynion gwahanol arddulliau cwmnïau neu raglenni, platfformau a chynulleidfaoedd targed
- K2 sut i ddefnyddio teclynnau chwilio arbenigol, a'r amrywiaeth o ffynonellau gwybodaeth, a chyfweleion sydd ar gael ar-lein
- K3 manylion hanfodol neu lai pwysig y stori, ei briff golygyddol, a sut i greu stori ar-lein
- K4 y cyfyngiadau cyfreithiol, moesol, rheoleiddio, masnachol, iechyd a diogelwch, a diogeledd a all effeithio ar sut rydych yn golygu'r stori
- K5 pa drwyddedau, cliriadau a chaniatâd sydd eu hangen a sut i'w cael, gan gynnwys ystyried hawlfraint, cytundeb a defnyddio cerddoriaeth
- K6 pryd y gall delweddau ychwanegol, gan gynnwys deunyddiau sain, fideo neu graffeg, wella cyflwyniad y stori
- K7 sut i gomisiynu deunydd gwreiddiol ar gyfer ei ddarparu ar-lein, pan fo angen
- K8 sut y gellir addasu neu greu fersiwn arall ar gyfer gwahanol blatfformau, neu ar gyfer gwasanaeth newyddion 24 awr
- K9 defnydd ymarferol a photensial creadigol dyluniad gwefan html neu un sy'n seiliedig ar gynllun templed
- K10 egwyddorion sylfaenol a thechnegau cyfredol a ddefnyddir ran pensaernïaeth, llywio a chysylltu gwybodaeth
- K11 egwyddorion sylfaenol systemau golygu cyfredol o ran sain, fideo, delweddau a graffeg

SKSJ32W

Golygu deunydd ar gyfer ei ddarparu ar-lein

Gwybodaeth ychwanegol

Cysylltiadau â SGC Eraill Mae'r Safon hon yn gofyn am sgiliau a chymwyseddau a ddisgrifir yn Safonau :

- J25: Golygu Copi
 - J26: Rheoli delweddau digidol
 - J29: Cyfrannu at ddylunio a datblygu gwefan
 - J30: Golygu deunydd sain
 - J31: Golygu deunydd fideo
- a dylid eu darllen ar y cyd â'r Safonau hyn

SKSJ32W

Golygu deunydd ar gyfer ei ddarparu ar-lein

Datblygwyd gan	Skillset
Fersiwn rhif	1
Dyddiad cymeradwyo	Medi 2010
Dyddiad adolygu a awgrymir	Medi 2012
Dilysrwydd	Cyfredol
Statws	Gwreiddiol
Sefydliad cychwynnol	Skillset
RCU gwreiddiol	J32
Galwedigaethau perthnasol	Celfyddydau, Cyfryngau a Chyhoeddi; Cyfryngau a chyfathrebu; Gweithwyr Proffesiynol Cysylltiol y Cyfryngau
Cyfes/Set	Newyddiaduraeth
Geiriau Allweddol	newyddiaduraeth, cynnwys, gwybodaeth, syniadau, ymchwil, cyfweiliadau, llaw-fer, ysgrifennu, radio a chlywedol, teledu a fideo, tynnu lluniau, argraffu, adroddiadau lleoliad, golygu copi